| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **7 Mawrth 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Arolygon Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru 2013** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Fod y Cyngor yn cymeradwyo cynnal arolygon cymunedol o dan adrannau 25 a 31 o'r Ddeddf a'r cylch gwaith** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Menna Trenholme** |
| **AWDUR** | **Siôn Huws Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau – Gwasanethau Cyfreithiol** |

**Cefndir**

**Beth yw Cymuned?**

1. At ddibenion yr adroddiad hwn, uned llywodraeth leol islaw lefel cyngor sir neu fwrdeistref sirol (y 'prif gyngor') yw 'cymuned'. Mae ardaloedd cymunedol yn gorchuddio Cymru gyfan. Mae ardal Gwynedd wedi ei rhannu'n 64 cymuned, gyda chyngor cymuned, tref neu ddinas etholedig yn gwasanaethu pob un. Yn y cyd-destun hwn yr un yw statws cyfreithiol y cynghorau beth bynnag y'i gelwir, h.y. maent i gyd yn cael eu hystyried yn 'gynghorau cymuned'. Gall cymunedau yn eu tro gael eu rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadol ond nid yw hyn yn anorfod, ac nid yw pob cymuned yng Ngwynedd wedi eu rhannu'n wardiau.

**Beth yw Rôl y Cyngor?**

2. Fel prif gyngor mae dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i fonitro'r cymunedau o fewn y sir, a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny. Rhaid iddo hefyd gynnal 'arolygon cymunedol' pan fo'r Ddeddf yn mynnu, neu pan fydd yn ystyried bod hynny'n briodol. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn rhaid i'r Cyngor o hyd geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

**Beth yw Arolwg Cymunedol?**

3. Mae hyn yn golygu fod y prif gyngor yn edrych ar ffiniau cymunedau a/neu'r trefniadau etholiadol fewn y cymunedau. Mae dau fath o arolwg cymunedol y dylai'r Cyngor ystyried eu cynnal felly:

a) **Arolwg o ffiniau cymunedau  (o dan adran 25 o'r Ddeddf)**

Arolwg o ffiniau un neu fwy o gymunedau i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu hunaniaeth yr ardal dan sylw ac yn hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir argymell newidiadau i ffiniau cymunedau, sy'n  cynnwys newidiadau i ffin cymuned bresennol, neu ddiddymu cymuned bresennol a chreu cymuned newydd.  Cyflwynir yr argymhellion i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, sydd â'r hawl i wneud y gorchymyn fyddai'n dod a'r newidiadau i rym.

b) **Arolwg o'r trefniadau etholiadol (o dan adran 31 o'r Ddeddf)**

Mae hyn yn golygu edrych ar y trefniadau etholiadol o fewn cymuned benodol sef, yn gryno, y sefyllfa o safbwynt wardiau a nifer y cynghorwyr.  Y Cyngor fyddai'n gwneud y gorchymyn i ddod â'r newidiadau yma i rym.

**Cyd-destun**

4. Rhaid i'r Cyngor adrodd ar ei drefniadau cymunedol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru bob deng mlynedd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiwn gynnal adolygiadau etholiadol o'r prif gynghorau bob deng mlynedd.

5. Wrth benderfynu cynnal arolwg cymunedol rhaid i'r Cyngor ystyried amserlen y Comisiwn ar gyfer cynnal ei arolygon o'r cynghorau sir. Yn ddelfrydol felly dylai arolwg cymunedol ragflaenu arolwg etholiadol o'r prif gyngor gan y Comisiwn, oherwydd mai'r cymunedau a'r wardiau cymunedol a ddefnyddir fel y sylfeini ar gyfer wardiau etholiadol y prif gynghorau. Mae'r arolygon etholiadol nesaf o'r prif gynghorau  i gychwyn yn 2024/25.

6. Yn ogystal â hyn, petai'r Cyngor ym mabwysiadau trefn Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yna byddai'n arwain at adolygiad ffiniau lleol gan y Comisiwn er mwyn symud i gyfundrefn seddi aml- aelod ar draws y Sir.  Yn yr un modd, y cymunedau fyddai'r sylfeini ar gyfer y wardiau newydd. Mae'r Comisiwn felly wedi cadarnhau y dylai'r Cyngor fwrw ymlaen gydag unrhyw adolygiad cymunedol.

**Cylch Gorchwyl**

**Pa fath o Arolygon fydd yn cael eu cynnal?**

7. Bwriedir cynnal **Arolwg o Drefniadau Etholiadol (adran 31)** o'r holl gymunedau o fewn y Sir.  Wrth gynnal Arolwg o'r fath gall y Cyngor edrych ar:

- nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y gymuned;
- rhannu'n wardiau (os yw'n briodol) at ddibenion ethol cynghorwyr;
- nifer a ffiniau unrhyw wardiau;
- nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward;
- enw unrhyw ward.

8. Ar sail yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd, credwn ei bod yn angenrheidiol edrych yn benodol ar y cwestiwn a ddylid rhannu cymunedau i wardiau cymunedol. Gwneir hyn gan ystyried, yn unol â'r Ddeddf, a yw nifer neu ddosbarthiad etholwyr y gymuned yn golygu y byddai un etholiad o gynghorwyr cymuned yn anymarferol neu'n anghyfleus, ac a yw'n ddymunol i unrhyw ran o'r gymuned gael ei chynrychioli ar wahân ar y cyngor cymuned.

9. Nid oes bwriad i gynnal ar arolwg cyffredinol o ffiniau pob cymuned ond yn hytrach cynnal arolwg o ffiniau cymunedau penodol lle amlygir rheswm posib dros newid. Yn aml bydd hyn yn briodol yn sgîl newidiadu fel datblygiadau tai newydd neu anghysondebau fel strydoedd neu eiddo sydd wedi eu gwahanu oddi wrth weddill eu cymuned naturiol. I'r perwyl hyn, ac fel rhan o'r dyletswydd i fonitro ein cymunedau gofynnwyd i gynghorau cymuned yn ddiweddar os oedd unrhyw faterion yr hoffent eu dwyn i'n sylw mewn perthynas â'r ffiniau presennol. Daethpwyd â materion penodol i'n sylw, a'r bwriad felly yw hefyd gynnal **Adolygiad Ffiniau (adran 25)** o ffiniau'r cymunedau hynny sy'n berthnasol i'r materion a godwyd, sef :

- Llanllechid - ar hyn o bryd mae ffin y gymuned yn rhannu stad tai Llwyn Bedw gan olygu bod rhai tai yng nghymuned Bethesda
- Y Felinheli – ar hyn o bryd mae nifer o eiddo sydd ar hyd Ffordd Heulyn ac o fewn pentref y Felinheli yng nghymuned Pentir yn hytrach na chymuned Y Felinheli
- Llanelltyd a Ganllwyd - y byddai'n gwneud synnwyr i uno'r ddau gyngor gan greu un cyngor yn Nyffryn y Mawddach
- Llanegryn - mae unigolyn preifat wedi cyflwyno cais i addasu ffin cymuned Llanegryn fel bod holl dir Fferm Rhydygarnedd yn dod o fewn y gymuned honno gan fod rhan wedi ei symud i gymuned Tywyn yn 1987.

10. Wrth gynnal yr arolygon yma fe ystyrir pob ardal yn ôl ei rhinweddau ei hun, gan roi sylw i'w phoblogaeth, daearyddiaeth a phatrwm y cymunedau.

**Proses ac Amserlen**

11. Mae'r broses statudol y mae'n rhaid ei dilyn wrth gynnal arolwg cymunedol yr un fath, i raddau helaeth, ar gyfer y ddau fath o arolwg cymunedol. Dim ond o ran y canlyniad yr arolwg, a'i weithredu, y mae'n wahanol. Gan y Cyngor mae'r grym i wneud gorchymyn i weithredu newidiadau i drefniadau etholiadol cymunedau ond bydd rhaid cyflwyno argymhellion i'r Comisiwn, fel yr awdurdod gweithredu, i wneud unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned.

12. Mae'r Ddeddf yn gosod pedwar cam hanfodol i'r broses:

• Cyhoeddusrwydd cychwynnol

• Ymchwiliad ac ymgynghoriad cychwynnol - diben y cam hwn yw galluogi prif gyngor i gasglu'r wybodaeth y bydd arno ei hangen wrth ystyried a pharatoi unrhyw gynigion ar gyfer newid)

• Cynigion drafft (ac ymgynghoriad ar y cynigion hynny); ac

• Argymhellion terfynol

13. Wrth ymgynghori byddwn yn cynnwys yr ymgynghorai gorfodol a nodir yn y ddeddf ond hefyd unrhyw fudd-ddeiliad eraill perthnasol, gan gynnwys:

- Etholwyr llywodraeth leol
- Cynghorau Cymuned
- Cynghorwyr Sir
- Aelodau o'r Senedd
- Aelodau Seneddol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

14. Gosodir yr amserlen arfaethedig isod

| **Cam** | **Cam Gweithredu** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Cymeradwyo cynnal Arolwg | Y Cyngor yn cymeradwyo egwyddor yr Arolwg Cymunedol a'i Gylch Gorchwyl. | Mawrth 2024 |
| Cyhoeddusrwydd Cychwynnol ac Ymgynghoriad 1 | Cynnal cyhoeddusrwydd cychwynnol a chyhoeddi cylch gwaith.<br>Dechrau Cyfnod ymgynghori o chwe wythnos ar y Cylch Gwaith yn dechrau gyda chyhoeddi Cylch Gorchwyl yr Adolygiad. | Mehefin 2024 |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus yn dod i ben | | Gorffennaf 2024 |
| Ystyried y sylwadau a pharatoi Cynigion Drafft | | Awst – Hydref 2024 |
| Cymeradwyo Cynigion Drafft | Cynigion Drafft i'w hystyried gan y Cyngor a'u cymeradwyo ar gyfer ymgynghori pellach | Cyngor Llawn Rhagfyr 2024 |
| Ymgynghoriad 2 | Cyhoeddi'r adroddiad yn unol â gofynion y Ddeddf a gwahodd sylwadau gan yr ymgynghorai gorfodol a budd-ddeiliad perthnasol eraill (6 wythnos) | Ionawr/Chwefror 2024 |
| Ystyried y sylwadau a pharatoi adroddiad terfynol i'r Cyngor Llawn | Cyngor i benderfynu ar yr argymhellion terfynol | Cyngor Llawn Mai 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddi argymhellion terfynol fel y cytunwyd | Cyhoeddi'r Adroddiad terfynol<br>(1) Gwneud y Gorchymyn ar gyfer yr Arolwg adran 31 (6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol)<br>(2) Cyflwyno argymhellion Arolwg adran 25 i'r Comisiwn | Mai/Mehefin 2025 |
| Gorchmynion yn dod i rym | Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf | Mai 2027 |

**Asesiad Effaith**

15. Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn penderfynu symud ymlaen ag unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol neu ffiniau cymunedau, byddai angen ymarfer sgrinio effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth llawn. Byddai hyn hefyd yn cael ei ymgorffori yn y broses ymgynghori .

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

16. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Bydd y Gwaith yn cael ei gynnal gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio

**Argymhelliad**

17. Cymeradwyo cynnal arolygon cymunedol o dan adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn unol â'r cylch gorchwyl a'r amserlen a nodir uchod.

**Swyddogion Statudol**

**Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yma wedi ei pharatoi gan y Gwasanaethau Cyfreithiol . Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb